



Y Prif Weinidog  
Llywodraeth Cymru  
Pumed Llawr  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

e [Nicholas.Green@lawcommission.gov.uk](mailto:Nicholas.Green@lawcommission.gov.uk)  
[LordJustice.Green@ejudiciary.net](mailto:LordJustice.Green@ejudiciary.net)

Cynorthwydd Gweithredol Charmaine Hunte  
e [Charmaine.Hunte@lawcommission.gov.uk](mailto:Charmaine.Hunte@lawcommission.gov.uk)  
[Charmaine.Hunte@justice.gov.uk](mailto:Charmaine.Hunte@justice.gov.uk)

Drwy'r post ac e-bost

10 Mai 2022

Annwyl Brif Weinidog,

Yn dilyn trafodaethau â'ch swyddogion, ysgrifennaf atoch i amlinellu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ynglŷn â phriodoldeb cynnwys newidiadau penodol yn y cydgrynhoad arfaethedig o ddeddfwriaeth amgylcheddol hanesyddol i Gymru, o dan Orchymyn Sefydlog 26C.2(v) y Senedd.

Gallaf gadarnhau, ar ran y Comisiwn, bod y pedwar mater canlynol, yn ein barn ni, yn briodol i'w cynnwys yn y Bil Cydgrynhoi.

### **Pwerau i benodi aseswyr**

Yn ein hadroddiad, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*, rydym yn argymhell y dylid ymestyn y pŵer sydd gan Weinidogion Cymru i benodi asesydd fel y bydd yn arferadwy gan arolygwyr, ac i ganiatáu i aseswyr gynorthwyo mewn achosion yr ymdrinnir â hwy drwy sylwadau ysgrifenedig.<sup>1</sup> Roeddem yn rhagweld y byddai'r newid hwn yr un mor gymwys yn achos adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth.<sup>2</sup> Rydym yn argymhell felly y byddai newid o'r fath yn fuddiol, ni fyddai'n golygu polisi newydd sylweddol, ac ni fyddai'n ddadleuol. Yr oedd hefyd yn destun ymgynghoriad gan y Comisiwn. Byddai felly'n newid priodol i'w wneud mewn Bil Cydgrynhoi, o dan Orchymyn Sefydlog 26C.2(v).

<sup>1</sup> *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Adroddiad Terfynol* Comisiwn y Gyfraith Rhif 383, paragraffau 11.17 i 11.27.

<sup>2</sup> Fel yr uchod, argymhelliad 11.4 yn t 203

## **Hysbysiad o hysbysiadau prynu**

O dan y ddeddfwriaeth gyfredol, ni ellir cyflwyno hysbysiad prynu ar fwrdd cynllunio ar y cyd (JPB), hyd yn oed os oedd wedi gwneud y penderfyniad neu'r gorchymyn sy'n arwain at gyflwyno hysbysiad prynu. Fe ymddengys fod hepgor JPB o gwmpas adran 32 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf 1990") yn anomaledd. Ar yr amod bod hysbysiad prynu'n cael ei gyflwyno ar yr "awdurdod cynllunio" perthnasol, wedi'i ddiffinio i gynnwys JPB, rydym o'r farn y byddai'n newid buddiol. Ni fyddai newid o'r fath yn bolisi sylweddol newydd ac ni fyddai'n ddadleuol. Rydym felly'n argymhell y byddai'n newid priodol i'w wneud mewn Bil Cydgrynhoi ar yr amgylchedd hanesyddol, o dan Orchymyn Sefydlog 26C.2(v).

## **Ceisiadau gan awdurdodau cynllunio am gydsyniad ardal gadwraeth**

O dan Ddeddf 1990, gwneir cais am gydsyniad ardal gadwraeth gan awdurdod ar gyfer ei waith arfaethedig ei hun yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Yn rhyfedd, mae rheoliadau wedyn yn golygu y bernir fod cais o'r fath wedi'i wneud i'r awdurdod a'i gyfeirio at Weinidogion Cymru (sef, mewn gwirionedd, y sefyllfa o dan statud yn achos cais am gydsyniad adeilad rhestredig). Nid oes rheswm pam na ddylai chyflwyniad deddfwriaethol y weithdrefn ar gyfer cydsyniad ardal gadwraeth gael ei alinio â'r un ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig. Ni fyddai newid o'r fath yn bolisi newydd sylweddol ac ni fyddai'n ddadleuol. Rydym felly'n argymhell y byddai'n newid priodol i'w wneud mewn Bil Cydgrynhoi ar yr amgylchedd hanesyddol, o dan Reol Sefydlog 26C.2(v).

## **Hysbysu perchnogion o geisiadau am gydsyniad**

Ar hyn o bryd mae pwerau manwl a rhagnodol iawn i wneud rheoliadau ynglŷn â hysbysu perchnogion ceisiadau am gydsyniad o dan adran 11 o Ddeddf 1990. Yn y cyd-destun cynllunio, cafodd pwerau'r un mor fanwl a rhagnodol yn y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 wreiddiol eu disodli gan ddarpariaeth newydd wedi'i geirio'n gyffredinol sy'n datgan bod y modd hysbysu i berchnogion yn cael ei ragnodi mewn gorchymyn datblygu. Ni fyddai newid y pwerau yn adran 11 o Ddeddf 1990 gyda darpariaeth debyg i wneud rheoliadau o ran yr hysbysiad i berchnogion yn ein barn ni'n bolisi newydd sylweddol ac ni fyddai'n ddadleuol. Rydym felly'n argymhell y byddai'n newid priodol i'w wneud mewn Bil Cydgrynhoi ar yr amgylchedd naturiol, o dan Orchymyn Sefydlog 26C.2(v).

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i longyfarch Llywodraeth Cymru ar gychwyn ar y daith i wneud cyfraith Cymru'n hygyrch. Roedd ein hadroddiad yn 2016 ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru / The Form and Accessibility of the Law Applicable in Wales, yn nodi'r angen i'r gyfraith fod yn glir a hygyrch, ac roedd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n dilyn polisi o godeiddio. Rwyf yn falch, yn dilyn deddfiad Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mai'r Bil amgylchedd hanesyddol fydd y mesur cydgrynhoi cyntaf i gael ei gyflwyno o dan y rheol sefydlog newydd. Hwn, rwy'n gobeithio, fydd y cyntaf o lawer o fesurau symleiddio o'r fath.

Gyda phob dymuniad da,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Nicholas Green'.

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Green

Cadeirydd, Comisiwn y Gyfraith